# Strategaeth Cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth 2018 - 2023

## CYFLWYNIAD

Mae Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth 2018 - 2023 yn nodi'r amcanion craidd a ganlyn mewn perthynas a'n gweledigaeth Addysg a Phrofiad Myfyriwr:

- *Parhau i ddatblygu ein darpariaeth israddedig i sicrhau cyrsiau deniadol a safonol sy'n arwain at swyddi ar lefel raddedig*
- *Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd ar draws ein hymrywiaeth o raglenni gan gynnwys cyfleoedd profiad gwaith, gwirfoddoli, profiadau rhyngwladol, a sgiliau trosglwyddadwy eraill*

Yn ogystal, cyfeirir yn benodol at bwysigrwydd meithrin ystod o rhyng-ddeiliaid allanol, darparu cyfleoedd i staff a myfyrwyr gysylltu'n effeithiol â chwmnïau a sefydliadau, buddosddi mewn sgiliau entreprenwraidd, hybu ymrwymiad mewn amrywiaeth o weithgareddau, cefnogi ymestyniad addysg traws-genedlaethol a chyfleoedd i loywi sgiliau iaith, cyfrannu at dŵf economaidd Cymru, ac hefyd gweithredu fel catalydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac integreiddio diwylliannol.


Pwrpas y Strategaeth Cyflogadwyedd yw sirahu bod y nodau ac amcanion hyn yn cael eu gwireddu. Trwy hyn, gallwn ddarparu'r profiadau anghenrheidiol a fydd yn sicrhau ein bod yn creu graddedigion sydd yn

| | |
|---|---|
| Gynhwysol | ym mhob peth y gwnant ac at bawb a ddaw ar eu traws |
| Ddyfeisgar | wrth feithrin eu sgiliau i'w galluogi i ystryied a datrys problemau byd-eang |
| Ysbrydoledig | gan ddefnyddio pob cyfle a ddaw ger eu bron, gan ddatgloi eu potensial yn barhaus |
| Annibynnol | wrth ddatblygu'n ddinasyddion deallus a hyderus yn y gymuned |
| Unigryw | wrth greu eu llwybrau gyrfa personol ac wrth gyfrannu i ddyfodol y byd |

## DIFFINIAD

Mae'r CBI ac UUK yn diffinio cyflogadwyedd fel *"cyfres o nodweddion, sgiliau a gwybodaeth sy'n angenrheidiol i bawb yn y farchnad lafur er mwyn sicrhau y gallant fod yn effeithiol yn y gweithle – er eu lles hwy eu hunain, eu cyflogwr a'r gymuned ehangach."* (2009)

Mae'n gyfrifoldeb ar bob un o staff y sefydliad i ymroi i hyn er mwyn sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u paratoi ar gyfer eu llwybrau yn y dyfodol, waeth beth fo'r llwybrau hynny.




Mae'n rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng cyflogaeth a chyflogadwyedd. Mae cyflogaeth yn gyfystyr â dod o hyd i swydd, tra bo cyflogadwyedd yn ymwneud â magu'r rhinweddau sy'n hwyluso ac yn hybu cyfleoedd cyflogaeth (a chyfleoedd eraill). Mae sgiliau cyflogadwyedd a rheoli gyrfa'n berthnasol i bob myfyriwr sy'n dod i'n sefydliad.

## NODAU STRATEGOL

Cydnabod bod datblygu sgiliau rheoli gyrfa yn gyfwerth ag astudiaethau academaidd:

**NÔD 1: Ymgorffori cyflogadwyedd yng nghwricwla academaidd pob Cyfadran**

1.1 Sefydlu gweithgorau cyflogadwyedd ym mhob Cyfadran i fwrw ymlaen â datblygu a hybu'r agenda hon ym mhob adran.

1.2 Llunio a gweithredu Cynlluniau Cyflogadwyedd i bob Cyfadran, gan osod nodau a dangosyddion perfformiad allweddol blynyddol clir i bob adran.

1.3 Cloriannu dulliau adborth a disgrifyddion modiwlau i sicrhau y tynnir sylw'r myfyrwyr at y sgiliau cyflogadwyedd sydd wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm ac i sicrhau bod y sgiliau hynny'n glir iddynt.

1.4 Sefydlu dulliau a phrosesau ym mhob Cyfadran i hwyluso datblygiadau i'r cwricwlwm dan arweiniad cyflogwyr er mwyn bodloni anghenion byd diwydiant a safonau proffesiynol.

1.5 Mabwysiadu ac addasu'r fframwaith Sefydlu Cyflogadwyedd yn y Cwricwlwm fel strwythur i ymgorffori sgiliau rheoli gyrfa yn eglur yn y cwricwlwm.

1.6 Defnyddio'r myfyrwyr yn bartneriaid (drwy'r Pwyllgorau Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr, Cynrychiolwyr Academaidd, UMCA, Undeb y Myfyrwyr a dulliau eraill

o gynrychioli'r myfyrwyr) i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm a dulliau asesu sy'n gwneud mwy i ymgorffori cyflogadwyedd yn y cwricwlwm.

1.7 Cydnabod bod y system tiwtorial yn ffordd bwysig o bwysleisio a chefnogi materion cyflogadwyedd ac academaidd ymhlith y myfyrwyr.

1.8 Annog y myfyrwyr i ymroi i bob agwedd di-gredyd y cwricwlwm, gweithgareddau all-gyrsiol a phrofiad gwaith o bob math.

**NÔD 2: Creu ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i helpu ein myfyrwyr i feithrin sgiliau cyflogadwyedd**

2.1 Cyfrannu at ddiweddaru ein cronfa ddata o gyflogwyr ac alumni, sy'n adlewyrchu pob sector a maes gyrfa, a phob math o sefydliad a chwmpas daearyddol.

2.2 Hyrwyddo ystod o gyfleoedd profiad gwaith sy'n gweddu at anghenion bawb, yn amrywio o gysgodi sylfaenol i swyddi hirdymor ar lefel graddedigion, ac yn cynnwys cyfleoedd ar y campws a chyfleoedd gyda chyflogwyr (Lleoliadau Diwydiannol, ABERymlaen, interniaethau hâf, Blwyddyn mewn Gwaith, opsiynau asiantaeth, Gwaith Aber, swyddi i raddedigion).

2.3 Annog y myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a chydgyrsiol (gwirfoddoli, clybiau a chymdeithasau, dysgu gydol oes, eFentora).

2.4 Meithrin ffyrdd gwahanol o feddwl drwy'r cwricwlwm academaidd a thrwy weithgareddau allgyrsiol, yn benodol o safbwynt menter, mentergarwch a mewnfentro.

2.5 Creu strwythur sy'n annog y myfyrwyr i gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau sydd ar gael iddynt, gan gydweithio ar draws pob adran yn y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a chyda'r myfyrwyr yn bartneriaid.

2.6 Ysbrydoli'r myfyrwyr i feithrin ymwybyddiaeth fyd-eang a diwylliannol ddyfnach drwy gymryd rhan mewn cynlluniau cyfnewid, cynlluniau astudio dramor, Erasmus+, eFentora a chyfleoedd rhyngwladol ar y cynllun Blwyddyn mewn Gwaith a/neu Lleoliadau Diwydiannol.

**NÔD 3: Rhoi pob anogaeth i'r myfyrwyr i fyfyrio ar eu dysgu a'u datblygiad, ac i fonitro hynny**

3.1 Darparu Rhestr Wirio Sgiliau a Thablau Cynllunio GraddedgionAber priodol ar gyfer pob blwyddyn ar bob rhaglen a ddysgir drwy gwrs, gan sicrhau bod cyfleoedd ar gael iddynt i ymroi i'r broses hyn o adnabod sgiliau mewn ffyrdd ystyrlon.

3.2 Gwarantu pecyn tiwtora gofynnol i bob myfyriwr ym mhob adran academaidd, a hynny'n elfen ddisgwyliedig ym mhob cwrs academaidd, gyda chynnwys craidd penodedig sy'n gyffredin i bob disgyblaeth sy'n cynnig cyfle i wneud gwaith ymchwil, myfyrio a monitro'n briodol.

3.3 Addasu'r cwricwla academaidd presennol yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r myfyrwyr i fyfyrio ar eu hastudiaethau ac ymchwilio i ystod ac effaith y sgiliau trosglwyddadwy sy'n cael eu datblygu drwy'r astudiaethau hynny.

3.4 Sicrhau bod strwythurau ar waith i gyfeirio at ddatblygiad sgiliau yn rheolaidd, gan gynnig prosesau ffurfiannol i adnabod hyn yn effeithiol.

**NÔD 4: Gweithio gyda chyflogwyr ac alumni i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm a gwella hygrededd proffesiynol ac enw da ein cyrsiau gradd, a'n graddedigion, yn unol â safonau a gofynion byd diwydiant**

4.1 Clustnodi cyflogwyr/alumni i gefnogi a thynnu sylw at berthnasedd agweddau damcaniaethol ar y cwricwlwm academaidd o safbwynt ymarferol ac o ran gwaith.

4.2 Defnyddio ystod o gyflogwyr/alumni i hwyluso a darparu gweithdai datblygu sgiliau ar y campws, gan ategu gwaith y Gwasanaeth Gyrfaoedd.

4.3 Meithrin cyswllt â chyflogwyr/alumni o safbwynt datblygu'r cwricwlwm er mwyn bodloni gofynion cyrff proffesiynol penodol a safonau byd diwydiant.

4.4 Clustnodi, cyrchu a chynnig ystod mor eang â phosib o gyfleoedd profiad gwaith, gan fanteisio ar bob perthynas â chyflogwyr ac alumni ledled y byd i hwyluso'r ddarpariaeth hon.

4.5 Casglu a chloriannu gwybodaeth am y farchnad lafur i raddedigion a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio newidiadau i'r cwricwlwm a datblygu cyfleoedd.

4.6 Cefnogi datblygiad cyrsiau a chwricwla amgen, yn benodol Prentisiaethau Gradd, i hwyluso cysylltiadau gwell gydag anghenion a safonau diwydiant, tra'n cyflwyno llwybrau helaethach i yrfaoedd sgiliau uchel.

4.7 Elwa ar bob cyfle sydd ar gael i rwydweithio â chyflogwyr ac alumni er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda cyflogadwyedd.

**NÔD 5: Cynnig cyfleoedd datblygu staff drwy gydol y flwyddyn academaidd i helpu holl staff y Brifysgol i ymroi'n llwyr i'r agenda cyflogadwyedd ac i gyfrannu ati, ac i gyflawni egwyddorion y strategaeth hon**

5.1 Darparu hyfforddiant i'r staff ar arferion ac egwyddorion sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd, ac fel elfen graidd o'r TUAAU.

5.2 Pwysleisio pwysigrwydd y Strategaeth Cyflogadwyedd a'i goblygiadau ym mhob rhaglen gynefino i staff newydd.

5.3 Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ac adrannau eraill i hwyluso'r gwaith o ledaenu'r strategaeth hon a'i hegwyddorion.